Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Ifor Hael
**Clos Meon**
**Bettws**
**Casnewydd**
**NP20 7DU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Ifor Hael wedi ei lleoli yn nalgylch Betws ar gyrion dinas Casnewydd ac mae'n gwasanaethu ardal ogleddol a gogledd-orllewinol y ddinas. Mae 220 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 28 oed meithrin rhan amser. Mae ganddi 9 dosbarth, gan gynnwys 1 dosbarth oed cymysg.

Mae tua 12% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan tua 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith gartref. Mae tua 6% o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae'r ysgol yn 'ysgol arloesi'r cwricwlwm' ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill sy'n arloesi gyda'r cwricwlwm i ddatblygu a chynnal peilot o gwricwlwm newydd i Gymru.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2010. Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Ifor Hael yn 2015-2016 yw £3,238. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghasnewydd yw £4,827 a'r lleiafswm yw £2,734. Mae Ysgol Gymraeg Ifor Hael yn yr 28ain safle o'r 44 ysgol gynradd yng Nghasnewydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Rhagorol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn ac yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol yn ardderchog
- gan ran fwyaf y disgyblion fedrau meddwl o safon uchel
- medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn ardderchog ar draws yr ysgol
- gan ran fwyaf y disgyblion uwch fedrau darllen o safon uchel iawn
- y rhan fwyaf yn ysgrifennu'n effeithiol iawn at wahanol ddibenion yn y ddwy iaith ac yn llwyddo i ennyn diddordeb y darllenwyr yn effeithiol iawn drwy ddefnydd o eirfa gyfoethog a thrwy amrywio brawddegau yn fedrus
- medrau rhifedd y rhan fwyaf yn datblygu'n dda iawn ar draws yr ysgol
- ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda drwy'r ysgol
- yr ysgol yn cynnig ystod o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus
- gan bron pob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o bob disgybl, sy'n cyfrannu'n gryf at y cynnydd eithriadol maent yn ei wneud
- staff yn defnyddio ystod eang o asesiadau, gan gynnwys profion safonol, i asesu cyrhaeddiad disgyblion yn drwyadl
- darpariaeth ardderchog i gefnogi'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- perthynas amlwg o barch a gofal yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion gyda phwyslais uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- arweinyddiaeth yr ysgol yn eithriadol o effeithiol ac yn sicrhau darpariaeth a deilliannau o safonau uchel iawn ar gyfer pob un o'r disgyblion
- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar ddatblygu unigolion hapus ac uchelgeisiol
- arweinwyr yn hyrwyddo disgwyliadau uchel iawn ymhlith y staff a'r disgyblion, sy'n sicrhau bod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar eu cyrhaeddiad a'u lles
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach, a'u bod yn herio'r ysgol yn llwyddiannus i gynnal safonau ac i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel
- trefniadau'r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella o safon

uchel iawn ac mae hanes da iawn o wella yn bodoli

- ganddi ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac sy'n ymestyn eu profiadau dysgu'n dda
- arweinwyr wedi llwyddo i greu diwylliant cryf o gydweithio ar draws yr ysgol sy'n cyfrannu'n werthfawr iawn tuag at sicrhau cysondeb yn yr addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol

## Argymhellion

A1 Datblygu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, lle'n briodol, ymhob dosbarth

A2 Sicrhau bod yr adroddiad hunanrafarnu yn amlygu yr un mor glir, yr arfer ragorol sy'n bodoli yn yr ysgol, ag ydyw o'r meysydd sydd angen eu gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion wrth ddechrau'r ysgol yn briodol i'w hoed. Er hyn, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu o'u man cychwyn. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn llwyddiannus ac yn datblygu eu gallu i weithio'n annibynnol yn ardderchog. Mae medrau meddwl rhan fwyaf y disgyblion yn arbennig o dda, er enghraifft wrth lunio rhesymau o blaid adeiladu ysgol uwchradd newydd yng Nghasnewydd.

Mae medrau siarad a gwrando rhan fwyaf y disgyblion yn ardderchog ar draws yr ysgol. Er bod y rhan fwyaf yn dechrau'r ysgol heb fedru siarad y Gymraeg, maent yn gafael yn yr iaith yn gynnar iawn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cyfathrebu'n naturiol gydag oedolion a'u cyfoedion gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa yn llwyddiannus iawn. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando ar ei gilydd gyda chwrteisi, gan siarad yn hyderus ac yn groyw yn y Gymraeg a Saesneg. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio geirfa bwnc yn arbennig o effeithiol, er enghraifft, wrth drafod nodweddion graffiau mewn gwersi mathemateg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un disgybl yn siarad yn frwdfrydig am ddarllen. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'u gwybodaeth ffonolegol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gan amrywio goslef y llais i gynnal diddordeb y gwrandawyr yn effeithiol iawn. Mae disgyblion mwy abl yn trafod nodweddion llyfrau yn dda iawn ac yn trafod eu hoff gymeriadau mewn stori yn fedrus. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod eang o destunau yn hyderus yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion uwch fedrau darllen o safon uchel iawn, er enghraifft wrth wneud synnwyr o'r wybodaeth o wahanol wefannau ac wrth gymharu arddull dau destun.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn rhagorol. Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf yn datblygu'n arbennig o dda. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ail adrodd stori Iâr Fach yr Haf. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ansawdd uchel. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Wrth ysgrifennu'n ymestynnol, maent yn strwythuro'u gwaith yn gywir gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ysgrifennu ymson yr asyn yn teithio i Jerwsalem yn eu gwaith addysg grefyddol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu'n effeithiol iawn at wahanol ddibenion yn y ddwy iaith. Maent yn llwyddo i ennyn diddordeb y darllenwyr yn effeithiol iawn drwy wneud defnydd o eirfa gyfoethog a thrwy amrywio brawddegau yn fedrus. Mae llawer o ddisgyblion yn ailddrafftio darnau o waith yn effeithiol ac yn gwella eu hymdrechion cyntaf yn gydwybodol. Mae bron pob un disgybl yn ysgrifennu i'r un safon ar draws y cwricwlwm yn y ddwy iaith ag y maent mewn gwersi iaith, er enghraifft wrth ysgrifennu perswâd o blaid ac yn erbyn ymgiliad yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn y Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion erbyn Blwyddyn 6 yn ysgrifennu darnau estynedig o safon uchel iawn.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda iawn ar draws yr ysgol. Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn llwyddiannus mewn ardaloedd dysgu ac yn yr awyr agored, er enghraifft wrth bwyso cynhwysion i greu 'diodydd' yn y gegin fwd. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn effeithiol wrth ddatrys problemau. Maent yn adio arian gan ddefnyddio'r nodiant degol yn gywir. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn parhau i adeiladau ar eu medrau rhifedd yn dda iawn. Erbyn Blwyddyn 6, gall y rhan fwyaf gymhwyso eu medrau rhifedd yn ardderchog ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo ffracsiwn y mathau o dai sydd ar werth ar ystâd o dai newydd.

Mae bron pob un disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau, gyda llawer yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl. Mae'r disgyblion o allu uwch yn cyrraedd safonau uchel yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Yn gyffredinol, mae safon gwaith y disgyblion yn eu llyfrau ac mewn dosbarthiadau yn well nag y mae'r data'n ei awgrymu ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi bod yn gyson uchel ac yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg mewn llythrennedd. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol yn gyffredinol wedi bod yn y 50% is. Mae perfformiad ar y deilliant uwch na'r disgwyl (deilliant 6) yn gyffredinol yn y 50% uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol.

Gan mai dwy flynedd yn unig o ddata cyrhaeddiad sy'n bodoli, yng nghyfnod allweddol 2 nid yw'n bosibl dod i farn ystyrlon ar dueddiadau mewn perfformiad.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) wedi disgyn o'r 25% uchaf ymhob pwnc craidd i'r 25% isaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac i'r 50% is yn y Gymraeg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) wedi codi ymhob pwnc craidd, gan osod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf y llynedd.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn isel, felly nid yw cymharu eu perfformiad â pherfformiad disgyblion eraill yn ddibynadwy.

### Lles: Rhagorol

Mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn eithriadol o dda drwy'r ysgol. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch gwirioneddol tuag at ei gilydd, y staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn arwain yn sylweddol at greu awyrgylch dysgu effeithiol. Mae bron pob un yn ymateb yn frwdfrydig ac yn aeddfed i'r disgwyliadau uchel sydd ohonynt. Ym mhob gwers, maent yn cydweithio'n dda iawn â'u cyfoedion ac yn dyfalbarhau er mwyn datrys problemau yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth drafod hen ffotograffau i ddod i gasgliadau hanesyddol. Mae'r ffordd y mae'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch eu dysgu yn nodwedd gref drwy'r ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud penderfyniadau cyson wrth ddewis gweithgareddau yn y ddarpariaeth barhaus.

Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn sôn am y cymorth ardderchog sydd ar gael iddynt os ydynt yn gofidio. Enghraifft ardderchog o hyn yw'r 'Cyfeillion Caredig', sy'n gofalu am ddisgyblion yn ystod amseroedd egwyl. Mae hyn yn cyfoethogi hunan hyder a lles y disgyblion yn arbennig o effeithiol.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ymwybyddiaeth arbennig o dda o sut i fwyta a byw yn iach. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cyfrifo ffracsiynau'r gwahanol fwydydd sydd eu hangen arnynt i gael diet cytbwys. Maent yn gwybod am bwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd i fyw'n iach. Ategir hyn drwy'r amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol sydd ar gael iddynt. Mae llawer o ddisgyblion yn mynychu'r clybiau hyn sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu ffitrwydd.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, pwyllgor eco a phencampwyr technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn chwarae rhan allweddol yn yr ysgol. Maent yn casglu syniadau gan eu cyfoedion yn effeithiol trwy gyfarfod â nhw yn rheolaidd a thrwy ddefnyddio bocs syniadau. Maent yn ystyried cynigion y disgyblion yn effeithiol ac yn blaenoriaethu'r agweddau sydd i'w gwella, er enghraifft wrth ddatblygu'r ardal allanol.

Mae presenoldeb yr ysgol yn dda ac, yn gyffredinol, yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o eang brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn ymateb i anghenion pob un o'r disgyblion yn effeithiol ac yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafar cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn llawn.

Mae staff yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn effeithiol drwy drefnu ymweliadau â'r gymuned yn rheolaidd i'r disgyblion, er enghraifft wrth ymweld â'r archfarchnad leol er mwyn cymharu prisiau cynnyrch Masnach Deg gyda chynnyrch arall.

Mae'r ysgol wedi llwyddo i adeiladu ar egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol iawn. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau ysgogol ar draws yr holl feysydd dysgu ac yn gwneud defnydd gwerthfawr o'r ardaloedd mewnol ac allanol yn gyson, er enghraifft wrth gynllunio gweithgareddau allanol yn y 'Den Dysgu'.

Mae'r ysgol wedi ymgorffori gofynion y Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd yn llwyddiannus i'w chynlluniau gwaith. Mae'r cynlluniau gwaith hir dymor yn gryno yn gynhwysfawr ac yn sicrhau cyflawniad priodol. Mae'r cynllunio tymhorol yn sicrhau cysondeb ar draws y pynciau ac yn hyrwyddo dilyniant a pharhad yn y dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso ystod eang o fedrau llythrennedd, rhifedd a TGCh mewn amrywiaeth fedrus o gyd-destunau gwahanol ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae medrau rhifedd a llythrennedd rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n llwyddiannus, er enghraifft drwy gynnal Eisteddfodau ysgol a dathlu diwrnodau Cymreig. Mae bron pob un aelod o staff yn modelu'r iaith yn dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn efelychu a defnyddio'r patrymau iaith, geirfa gyfoethog a chystrawennau'n effeithiol iawn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r dimensiwn Cymreig yn llwyddiannus drwy astudio gwaith artistiaid, beirdd a cherddorion o Gymru. Mae hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn effeithiol.

Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang yn gyson dda. Er enghraifft, mae'r ysgol yn astudio nifer o wledydd tramor, a'r ffordd o fyw yno. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n llwyddiannus.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae gan bron pob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob disgybl. Mae'r egwyddor hon yn cyfrannu'n gryf at y cynnydd da iawn mae'r disgyblion yn ei wneud. Mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn gyson. Maent yn darparu tasgau o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion disgyblion o bob gallu yn effeithiol iawn. Nodwedd gref o'r addysgu yw'r cydweithio agos a hynod effeithiol sy'n bodoli rhwng yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu sy'n creu awyrgylch lle mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn awyddus i ddysgu.

Mae'r ffordd y mae'r ysgol yn sicrhau cysondeb yn ansawdd uchel yr addysgu ar draws yr ysgol yn nodwedd ragorol. Mae staff yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trafod eu disgwyliadau o safbwynt yr addysgu a'r asesu, a sicrhau eu bod yn gyson uchel. Er enghraifft, maent yn dadansoddi disgrifiadau lefel yn fanwl ac yn penderfynu ar sut i'w dehongli'n effeithiol ar lawr y dosbarth. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n gyson o safon uchel ac sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ddeilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae safon yr addysgu yn gyson dda gyda llawer o nodweddion rhagorol ar draws yr ysgol.

Mae cyflymder da i bron pob un o'r gwersi sy'n sicrhau bod disgyblion yn aros ar dasg am gyfnodau estynedig. Mae pob un o'r athrawon yn rhannu amcanion gwersi a meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn annog disgyblion i bennu eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn fodelau iaith dda ac yn holi cwestiynau o safon uchel er mwyn asesu dealltwriaeth disgyblion ac i'w hannog i feddwl. O ganlyniad, mae medrau meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion o safon uchel.

Mae athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion sy'n eu galluogi i fireinio a gwella eu gwaith yn hyderus. Mae'r sylwadau ysgrifenedig a geir ar waith disgyblion yn dathlu eu llwyddiannau yn dda ac yn cynnig ffordd glir ymlaen iddynt ar sut i wella eu gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn ailddrafftio'u gwaith yn gelfydd i wella eu hymdrechion cyntaf. Mae'r broses hunanasesu ac asesu cyfoedion yn datblygu'n effeithiol mewn llawer o ddosbarthiadau. Er hyn, nid yw'r arfer wedi datblygu i'r un graddau ymhob dosbarth.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio ystod eang o asesiadau, gan gynnwys profion safonol, i

asesu cyrhaeddiad disgyblion yn drwyadl. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn arbennig o effeithiol er mwyn cynllunio gwersi ac i adnabod disgyblion sydd angen ymyrraeth ym meysydd llythrennedd a rhifedd a darparu'n briodol ar eu cyfer.

Mae adroddiadau i rieni yn gynhwysfawr ac yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol drefniadau eithriadol o effeithiol ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion. Drwy'r defnydd rhagorol a chyson o'r strategaeth 'Cadi'r Crwban', mae staff yn gosod disgwyliadau uchel i'r disgyblion o ran ymddygiad a'u hymrwymiad i'w gweithgareddau. O ganlyniad, mae ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob disgybl yn ardderchog yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol. Mae'r ethos o gydweithio a chydfodolaeth yn galluogi pob disgybl ac aelod staff i gyrraedd safonau ymhell uwchlaw'r disgwyl.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth ardderchog i gefnogi'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar iawn ac yn cynnig rhaglenni ymyrraeth iddynt, sy'n briodol ac o safon uchel. Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n effeithiol iawn o dan arweiniad y cyd-gysylltydd i weithredu'r ystod eang o raglenni ymyrraeth yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd o ansawdd uchel yn eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol sy'n cynnwys targedau mesuradwy a phriodol. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda gyda llawer yn gwneud cynnydd sydd ymhell uwchlaw'r disgwyl.

Mae ysgol yn darparu'n fedrus ar gyfer datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol disgyblion. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson a phriodol i fyfyrio mewn sesiynau cyd-addoli a gwasanaethau dyddiol, er enghraifft drwy werthfawrogi a dathlu gwahaniaethau rhwng pobl. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd arbennig o effeithiol i hyrwyddo medrau cymdeithasol a moesol y disgyblion trwy ddefnyddio strategaethau amrywiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu gallu i gydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae'r defnydd o'r strategaeth 'pump y dydd' yn sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud dewisiadau iach yn ystod amser egwyl a chinio. Mae llawer o weithgareddau allgyrsiol ar ôl ysgol yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o sut i gadw'n heini yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o wasanaethau ac arweiniad arbenigol allanol, er enghraifft y gwasanaethau iaith a lleferydd, i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion ieithyddol penodol. Yn yr un modd, mae'r defnydd da iawn a wneir o'r gwasanaeth cwnsela ar draws y clwstwr yn cynorthwyo disgyblion bregus i drafod eu teimladau mewn modd sensitif a chodi eu hyder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a hapus, sydd ag ethos eithriadol o ofalgar a chynhwysol. Un o gryfderau'r ysgol yw'r berthynas amlwg o barch a gofal sy'n bodoli rhwng oedolion a disgyblion. Mae bob aelod o staff yn hyrwyddo awyrgylch dysgu cefnogol iawn sy'n annog bob disgybl i geisio'u gorau glas ac i ddyfalbarhau. O ganlyniad, mae bron pob o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr annibynnol sy'n defnyddio'u medrau meddwl yn effeithiol iawn i ddatrys problemau.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn datblygu'n dda iawn fel unigolion cyflawn. Mae'r ysgol yn hollol gynhwysol a chaiff pob disgybl ei drin yn gyfartal gan sicrhau mynediad llawn i'r holl weithgareddau. Mae ystod o bolisïau a gweithdrefnau effeithiol gan yr ysgol sy'n bodloni gofynion statudol.

Mae arddangosfeydd ysgogol a deniadol o waith disgyblion yn creu amgylchedd dysgu symbylus ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r 'Goeden Ffa Garedig' sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion yn arbennig o dda. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos balchder yn eu hysgol a'u gwaith.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleusterau da iawn i'w disgyblion ac mae staff yn gwneud defnydd pwrpasol ohonynt. Mae'r safle a'r adeilad yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus tu hwnt, gan ddarparu amgylchedd ysgogol ar gyfer dysgu a chwarae. Mae'r ysgol wedi datblygu'r ardal allanol i greu amgylchedd ddysgu symbylus o safon uchel. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr iawn ar gyfer yr ardal hon. Er enghraifft, maent yn tyfu llysiau yn yr ardd ac yn gwerthu'r cynnyrch yn y ffair ysgol. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn yr awyr agored.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn eithriadol o effeithiol ac yn sicrhau darpariaeth a deilliannau o safonau uchel iawn ar gyfer pob un o'r disgyblion. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu unigolion hapus ac uchelgeisiol. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn gyda'r staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. O ganlyniad, mae gan yr ysgol ethos gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn llwyddo i gyrraedd safonau uchel yn eu gwaith. Mae hyn yn nodwedd ragorol o fywyd a gwaith yr ysgol.

Caiff y pennaeth ei chefnogi yn ardderchog gan aelodau'r uwch dim rheoli. Ar y cyd, maent yn hyrwyddo disgwyliadau uchel iawn ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol iawn ar gyrhaeddiad a lles disgyblion.

Mae pob aelod staff yn ymwybodol o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Mae’r systemau gweithredu o fewn yr ysgol yn gadarn iawn ac yn cefnogi’r staff i gyflawni eu cyfrifoldebau’n effeithiol. Maent yn cydweithio’n agos iawn fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a chynllunio ar y cyd. Maent yn barod iawn i rannu eu harbenigedd er mwyn gwella’r ddarpariaeth. Mae hyn yn nodwedd amlwg ac effeithiol iawn, sy’n creu sylfaen gref wrth ymdrin â’r dasg o godi safonau.

Nodwedd ragorol o’r arweinyddiaeth yw’r ffordd y mae arweinwyr yn sicrhau atebolrwydd gan bob aelod staff. Maent yn gwneud hyn drwy sicrhau cyfleoedd arwain effeithiol iawn i staff ar bob lefel. Maent yn defnyddio eu trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad yn arbennig o effeithiol i ddwyn aelodau staff i gyfrif am eu perfformiad mewn perthynas â deilliannau disgyblion. Mae hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn safon yr addysgu a’r dysgu ar draws ysgol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o’u man cychwyn.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol ac o’r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn diweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd trwy fynychu hyfforddiant perthnasol. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio’n agos â’r arweinwyr i sicrhau iddi gyfeiriad strategol clir. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, ac ymweliadau cyson â’r ysgol, maent yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus wrth gynnal safonau a sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae’r ysgol yn ymateb yn dda iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu’n effeithiol ac mae’r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori’n llawn yng nghynlluniau athrawon. Mae’r ysgol wedi gweithredu’n effeithiol i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddisgyblion bregus ac i sicrhau presenoldeb da.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant o safon uchel iawn. Mae arweinwyr wedi defnyddio’r prosesau yn arbennig o effeithiol i sicrhau bod ganddi hanes llwyddiannus o welliant. O ganlyniad, maent wedi llwyddo i sefydlu ysgol lwyddiannus trwy adnabod eu cryfderau a’u meysydd i’w gwella yn dda iawn. Mae hyn wedi arwain at ddeilliannau uwchlaw’r disgwyliadau i’w disgyblion.

Mae’r broses hunanarfarnu yn canolbwyntio’n briodol ar gasglu a defnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad trylwyr o ddata perfformiad cymharol yr ysgol, deilliannau systemau asesu mewnol a chanlyniadau profion safonol. Mae’r holl athrawon yn gyfrifol am ddefnyddio’r data yn gyson i adnabod anghenion y disgyblion sydd yn eu dosbarthiadau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth arbennig o dda o’r hyn sydd ei angen er mwyn gwella safonau eu disgyblion. Mae craffu ar lyfrau, gwirio cynlluniau gwaith, siarad â disgyblion ac arsylwi gwersi yn chwarae rhan annatod o’r broses. Mae’r arfer o ailymweld ag agweddau yn rheolaidd i fonitro effaith blaenoriaethau newydd ac i sicrhau ansawdd gweithdrefnau arferol yr ysgol yn gryf iawn yn y broses. Defnyddir y wybodaeth o’r prosesau hyn yn effeithiol iawn i adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae llywodraethwyr hefyd yn rhan o’r broses o graffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi. Mae hyn yn eu galluogi i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn effeithiol.

Mae'r prosesau hunanarfarnu yn bwydo'r ddogfen hunanarfarnu yn effeithiol ac yn sicrhau bod arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Er hyn, er nad yw'n cael effaith andwyol ar safonau'r disgyblion, mae gan arweinwyr dueddiad i ganolbwyntio'n fwy ar y meysydd sydd angen eu gwella ymhellach yn hytrach na dathlu'r arferion rhagorol sy'n bodoli.

Mae'r ysgol yn canfod barn rhieni a disgyblion yn effeithiol. Gwna arweinwyr ddefnydd da o'r wybodaeth hon i wella agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae barn disgyblion wedi arwain at welliant yn y cyflenwad adnoddau ar gyfer TGCh sydd ar gael ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn gyson dda.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn glir ac yn fanwl, gyda nifer briodol o flaenoriaethau addas. Mae'n cysylltu'n dda iawn â deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a gofynion blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu yn nodi cyfrifoldebau gweithredu a chyfrifoldebau monitro a gwerthuso yn glir. Mae pob cynllun yn nodi meini prawf llwyddiant mesuradwy ac mae wedi ei ariannu'n graff.

Mae'r uwch dim rheoli yn monitro a gwerthuso'r cynnydd yn erbyn y meini prawf llwyddiant yn gyson ac yn drylwyr. Mae hyn yn nodwedd gref o waith yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar godi safonau ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n dda.

Mae partneriaeth werthfawr yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r ysgol yn hysbysu'r rhieni yn dda am ei gweithdrefnau drwy gylchlythyron, y safle we a thrwy eu gwahodd i wasanaethau rheolaidd. Mae gan yr ysgol bolisi drws agored ac mae bron pob un o'r rhieni yn teimlo'n hyderus i ddod i drafod unrhyw faterion angenrheidiol. Mae'r ysgol yn cynnig gwybodaeth werthfawr am yr hyn mae ei disgyblion yn ddysgu drwy gynnal gweithdai cwricwlaidd, fel gweithdai mathemateg i godi eu hymwybyddiaeth am y dulliau addysgu a ddefnyddir. Mae hyn yn helpu rhieni i gynorthwyo'u plant gartref. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Caiff yr arian ei ddefnyddio'n bwrpasol ar gyfer cyfoethogi'r profiadau a gynigir i ddisgyblion, er enghraifft i gefnogi'r ysgol i dalu cost ymweliadau addysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad llawn i holl weithgareddau'r ysgol.

Er mwyn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin, mae'r ysgol yn cydweithio'n fuddiol â'r lleoliadau yn y gymuned sy'n cynnig gofal cyn ysgol. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddo esmwyth i ddisgyblion sydd yn newydd i'r ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r arbenigedd sy'n bodoli yn y gymuned leol; er enghraifft, defnydd yr heddlu i hybu dealltwriaeth disgyblion o sut i gadw'n ddiogel.

Mae trefniadau pontio sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd lleol yn sicrhau bod trosglwyddo effeithiol yn digwydd wrth i'w disgyblion hŷn gychwyn ar y cam nesaf yn eu haddysg. Mae cydweithio llwyddiannus yn bodoli â'r ysgolion hyn

ac ysgolion cynradd y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli enghreifftiau o waith llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnodau allweddol.

Mae cyswllt defnyddiol yn bodoli gydag ysgolion cyfagos sy’n annog cydweithio pwrpasol i wella safon gwaith disgyblion. Mae hyn yn hybu datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus; er enghraifft trwy weithio gyda thriawd o ysgolion cyfagos, mae staff wedi gwella ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgolion.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau yn hynod effeithiol i sicrhau awyrgylch dysgu effeithiol. Maent yn adnabod cryfderau a diddordeb athrawon unigol yn arbennig o dda ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau iddynt yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn llwyddiannus i sicrhau’r defnydd gorau o’u harbenigedd a’u profiad. Er enghraifft, mae cynorthwywyr addysgu yn rhoi cymorth rhagorol i grwpiau ymyrraeth ac i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol. Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol.

Mae’r arweinwyr yn llwyddo i greu diwylliant cryf o gydweithio ar draws yr ysgol. Mae staff yn arsylwi ar ei gilydd er mwyn gwella’u hymarfer. Mae hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn tuag at sicrhau cysondeb yn yr addysgu a’r dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau cyrhaeddiad disgyblion.

Defnyddir prosesau rheoli perfformiad yn arbennig o ddylanwadol wrth adnabod anghenion hyfforddi staff. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol iawn o hyfforddiant mewnol ac allanol er mwyn gwella’r ddarpariaeth ar draws yr ysgol, er enghraifft drwy wella uwch fedrau darllen disgyblion.

Mae’r pennaeth, y swyddog gweinyddol a’r corff llywodraethol yn rheoli’r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drylwyr. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu’n dda â’i chynlluniau ar gyfer gwella.

Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion, er enghraifft trwy gyflogi cynorthwywyr i weithio gyda disgyblion i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r ddarpariaeth hon o safon uchel iawn ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau cyflawniad uchel y disgyblion ac ansawdd cadarn yr addysgu, mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6802320 - Ysgol Gymraeg Ifor Hael**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 207 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 12.7 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 34 | 36 | 27 | 28 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 88.2 | 88.9 | 88.9 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 36 | 27 | 28 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.2 | 91.7 | 92.6 | 96.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 17.6 | 33.3 | 40.7 | 39.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 36 | 27 | 28 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.1 | 91.7 | 92.6 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 23.5 | 30.6 | 37.0 | 42.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 34 | 36 | 27 | 28 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.5 | 38.9 | 77.8 | 75.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o'r blynyddoedd o ddata perfformiad cyfnod allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 100 | 98<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 100 | 87<br>87%<br>92% | 13<br>13%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 100 | 96<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 100 | 98<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 99 | 93<br>94%<br>96% | 6<br>6%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 100 | 95<br>95%<br>96% | 5<br>5%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 99 | 99<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 99 | 98<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 99 | 75<br>76%<br>91% | 24<br>24%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 99 | 96<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 98 | 66<br>67%<br>77% | 32<br>33%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 100 | 93<br>93%<br>84% | 7<br>7%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 35 | 23 | 12 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 35 | 30 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 35 | 28 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 35 | 22 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 35 | 22 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 63% | 37% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 34 | 23 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 35 | 25 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 35 | 16 | 14 | 2 | 3 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 40% | 6% | 9% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 35 | 26 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 74% | 26% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 35 | 27 | 8 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 33 | 26 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 34 | 20 | 12 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 59% | 35% | 6% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 35 | 22 | 11 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 31% | 6% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 34 | 24<br>71% | 8<br>24% | 2<br>6% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 15<br>47% | 16<br>50% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 35 | 22<br>63% | 13<br>37% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 27 | 12<br>44% | 12<br>44% | 2<br>7% | 1<br>4% | 8 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 34 | 20<br>59% | 13<br>38% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 35 | 26<br>74% | 9<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Meleri Cray | Arolygydd Lleyg |
| Richard Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Parry-Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.